pensaernïaeth **seven**



# Ennill cystadleuaeth yn Betws-y-Coed

Mae Pensaernïaeth Seven wedi cael ei gyhoeddi fel enillydd llwyddiannus cystadleuaeth agored i ddylunio cyfleusterau twristaidd/cymunedol yng nghalon Parc Cenedlaethol Eryri.



Wedi ei leoli yn Betws-y-Coed, cyrchfan ymwelwyr brysuraf Eryri, bydd y cyfleusterau'n integreiddio nifer o anghenion swyddogaethol gynnwys pwynt cyfeiriannu twristaidd gyda chyfleusterau cefnogol, canolfan achub mynydd, safle Heddlu, storfa beic mynydd/gwarfagiau a chyfleusterau ailgylchu.

"Seilir ein dynesiad dylunio ar ddealltwriaeth drylwy o'r safle ac yn benodol y cyd-destun sensitif ble lleolir yr adeilad. Cydbwyswn ein hawydd i greu adeilad a saif yn unigryw gyda dynesiad dylunio ystyrlon i greu yr hyn a gredwn fydd yn adeilad trawiadol a chynaliadwy o fewn y lle harddaf."



Gan gyflawni lefelau uchel o arbed egni a gydag ôl troed carbon isel, bydd yr adeilad a argymhellir yn disodli yr hen gyfleusterau cyhoeddus ac yn darparu lle amlwg i gynorthwyo ymwelwyr i ddarganfod eu ffordd o amgylch y pentref.

Denodd y gystadleuaeth agored, a drefnwyd gan Gyngor Sir Bwrdeistrefol Conwy, ymgeiswyr o'r DG benbaladr a ddisgwylid oll i gyflwyno eu syniadau am gyfleusterau cynaliadwy, o radd 'ragorol' BREEAM.

Manchester Studio
+44 (0) 845 000 777 1

Harrogate Studio
+44 (0) 845 000 777 2

Wales Studio
+44 (0) 845 000 777 3

E-mail:ian.chapman@sevenarchitecture.co.uk